

DATGANIAD CYFRIFON CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
PEN-Y-BONT AR OGWR

FFURFLEN FLYNYDDOL CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO
FFURFLEN FLYNYDDOL HARBWR PORTHCAWL

2023-24

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor lofnodi a dyddio'r datganiad cyfrifon a'r ffurflenni blynyddol ac ardystio eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi, ynghyd ag incwm a gwariant y corff am y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2024.

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon a'r ffurflenni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Nid ydym wedi gallu cwblhau'r Datganiad Cyfrifon drafft oherwydd yr oedi cyn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2022-23 a ardystiwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 26 Ionawr 2024, a'r effaith a gafodd hynny ar baratoi cyfrifon 2023-24. Caiff Datganiad y Cyfrifon ei baratoi a bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei lofnodi a'i ardystio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 31 Mai 2024.

Carys Lord
Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid
Y Swyddfeydd Dinesig
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB
Dyddiedig: 31 Mai 2024